Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Senedd Ymchwil**

# Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd

## Briff Ymchwil

05 Rhagfyr 2018



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**


# Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd

## Briff Ymchwil

05 Rhagfyr 2018

Y Cynulliad a BREXIT

## Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **1**

**Datblygiadau yng Nghymru** .......... **2**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru .......... 2

Llywodraeth Cymru .......... 5

Newyddion .......... 6

**Datblygiadau'r UE** .......... **8**

Y Cyngor Ewropeaidd .......... 8

Y Comisiwn Ewropeaidd .......... 8

Senedd Ewrop .......... 10

Newyddion .......... 11

**Datblygiadau'r DU** .......... **12**

Llywodraeth y DU .......... 12

Tŷ'r Cyffredin .......... 14

Pwyllgorau .......... 15

Y Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol: .......... 15

Amddiffyn: .......... 16

Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: .......... 16

Archwiliad Amgylcheddol: .......... 16

**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

Craffu Ewropeaidd: .......... 16

Ymadael â'r UE: .......... 17

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: .......... 17

Materion Cartref: .......... 17

Hawliau Dynol: .......... 18

Masnach Ryngwladol: .......... 18

Cyswllt: .......... 18

Materion Gogledd Iwerddon: .......... 19

Gweithdrefn: .......... 19

Cyfrifon Cyhoeddus: .......... 19

Materion yr Alban: .......... 19

Y Trysorlys: .......... 20

Materion Cymreig: .......... 20

Tŷ'r Arglwyddi .......... 20

Pwyllgorau .......... 21

Cyfansoddiad: .......... 21

Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio: .......... 21

Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE: .......... 21

Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE: .......... 22

Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE: .......... 22

Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE: .......... 22

Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE: .......... 22

Is-bwyllgor Cyfiawnder yr UE: 22
Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth (Is-bwyllgor A): 23
Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth (Is-bwyllgor B): 23
Newyddion 23
**Yr Alban 27**
Senedd yr Alban 27
Llywodraeth yr Alban 27
**Gogledd Iwerddon 29**
**Cysylltiadau rhwng y DU ac Iwerddon 30**
**Adroddiadau a gyhoeddwyd 31**
Llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi 31
The Conversation 31
UK in a Changing Europe 32
LSE Brexit 33
Arall 33

**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; yr UE; y DU; a'r Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 6 a 27 Tachwedd 2018, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle y mae gwybodaeth ar gael ar adeg llunio'r drafft terfynol.

Y datblygiad mwyaf arwyddocaol yw bod y Cynulliad wedi pleidleisio ar 4 Rhagfyr i "**wrthod y cytundeb ymadael a'r datganiad gwleidyddol am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a gytunwyd gan y Cyngor Ewropeaidd a Llywodraeth y DU**". Mae Senedd y DU hefyd yn trafod y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol ar hyn o bryd, a bydd yn pleidleisio ar 11 Rhagfyr.

# Datblygiadau yng Nghymru

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (EAAL) yw prif Bwyllgor y Cynulliad sy'n cydlynu gweithgareddau'r Pwyllgorau sy'n ymwneud â Brexit.*

Mae Pwyllgor EAAL wrthi ar hyn o bryd yn gwneud ymholiadau ynglŷn â **Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?**, **Perthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol – rhan dau**, a **Chyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?**

Dyma oedd sesiynau diweddaraf y Pwyllgor EAAL:

- 5 Tachwedd: Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyffredinol Brexit gyda'r Prif Weinidog. **Trawsgrifiad**.
- 12 Tachwedd: Seminar breifat ar fasnach.
- 19 Tachwedd: Ar ôl nodi papurau, symudodd y Pwyllgor i sesiwn breifat. **Trawsgrifiad**.
- 26 Tachwedd: Cynhaliodd y pwyllgor sesiwn graffu gyffredinol Brexit gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. **Trawsgrifiad**

25 Hydref: Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad '**Brexit a Chydraddoldebau**' ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

25 Hydref: Cyfarfod y fforwm rhyngseneddol ar Brexit yng Nghaerdydd. David Rees AC a Mick Antoniw AC oedd cadeiryddion y fforwm. Cyhoeddodd y fforwm **ddatganiad**.

26 Tachwedd: Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad: **Paratoi ar gyfer Brexit – Adroddiad dilynol ar barodrwydd porthladdoedd Cymru**.

29 Tachwedd: Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad: **Y Cytundeb Ymadael: Goblygiadau i Gymru**.

Ar 5 Tachwedd bu'r Pwyllgor EAAL yn ystyried gohebiaeth oddi wrth:

- **Prif Weinidog Cymru ynghylch Hub Cymru Affrica**.





- **Nick Ramsay, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE**.
- **Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit ynghylch creu fforwm Brexit newydd**.
- **Prif Weinidog Cymru ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion a geir yn yr adroddiad ar 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?'**

Ar 19 Tachwedd bu'r Pwyllgor EAAL yn ystyried gohebiaeth oddi wrth:

- **David Rowlands, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-05-840 Cyllid Teg i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a phob Awdurdod Lleol arall**.
- **Robin Walker AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ymadael â'r UE ynghylch y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn dilyn ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor EAAL ar 11 Hydref**.
- **Cymdeithas Milfeddygon Prydain: Brexit Dim Bargen a'r Proffesiwn Milfeddygol**.
- **Jim Harra, Dirprwy Brif Weithredwr ac Ail Ysgrifennydd Parhaol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch eglurhad o wiriadau tollau pan gyrhaeddir aelod-wladwriaeth pen y daith**.
- **Prif Weinidog Cymru ynghylch pleidlais yn y Cynulliad ar y Cytundeb Ymadael**.

Ar 26 Tachwedd bu'r Pwyllgor EAAL yn ystyried gohebiaeth oddi wrth:

- **Cyswllt Amgylchedd Cymru ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch Bil Pysgodfeydd y DU**.

### Arall

7 Tachwedd: Dadl Cyfarfod Llawn – **Brexit a Chydraddoldebau – Canfyddiadau ar y cyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**.

14 Tachwedd: **Dadl Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei Ymchwiliad i baratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru**.

20 Tachwedd: Datganiad mewn Cyfarfod Llawn gan y Prif Weinidog: **Cytundeb Drafft ar Ymadawiad y DU â'r UE**.

20 Tachwedd:Dadl Cyfarfod Llawn: **Rheoliadau'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018**.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil ei hun ar **Pigion**. Dyma'r blogiau diweddaraf am Brexit: **Bil Pysgodfeydd y DU a Chymru; Gwerthu Cymru i'r Byd**; **Cytundebau Sefydliad Masnach y Byd a datganoli: dadansoddi astudiaethau achos**; **Cyhoeddiad Newydd: Adroddiad Monitro Brexit – Yr Amgylchedd**; **Adroddiad Monitro Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd**; **Pleidleisiau ystyrlon neu bleidlais symbolaidd? Pleidleisiau Brexit yn y Cynulliad a San Steffan**; **Mewnfudo ar ôl Brexit**; **Mewnfudo ar ôl Brexit**; **Pam mae'r Cynulliad yn trafod diddymu Deddf Parhad Cymru?**; **Biliau a mwy o filiau – diweddariad ar ddeddfwriaeth Brexit**; **Y Cynulliad i drafod adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ddisodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru**.

Ar 25 Medi, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar **Y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru**. Gwnaeth yr adroddiad 11 o argymhellion, gan gynnwys y rheini mewn meysydd allweddol fel sicrhau na fydd Cymru 'geiniog ar ei cholled' ar ôl Brexit, ac ar ariannu a datganoli prif ffynonellau cyllid ar ôl Brexit, fel Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chymorth amaethyddol. **Ymatebodd** Llywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd, gan dderbyn pob un o'i argymhellion. Roedd yr adroddiad yn destun **dadl Cyfarfod Llawn** ar 14 Tachwedd.

Ymatebodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar '**Iechyd a Chytgord: y dyfodol ar gyfer bwyd, ffermio a'r amgylchedd mewn Brexit Gwyrdd**'. Ym mis Hydref, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad **Effaith Brexit ar Bysgodfeydd yng Nghymru**.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn llunio adroddiad ar **Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach**.

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'n llunio adroddiad ar ei **ymchwiliad byr i oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i feysydd o fewn ei gylch gwaith**.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiadau ar Is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE. Maent i'w gweld ar **dudalennau gwe y Pwyllgor**. Ar 8 Hydref, cyhoeddodd y pwyllgor ei adroddiad **Craffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil Masnach**.



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

## Llywodraeth Cymru

6 Tachwedd: Datganiad Ysgrifenedig: **Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**

9 Tachwedd: **£14.7m o gyllid yr UE i hybu cynlluniau gwaith yn y Cymoedd.**

9 Tachwedd: **Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

10 Tachwedd: **Cymru yn chwilio am ragor o lwyddiant gyda Medica ac ADIPEC wrth i Brexit agosáu** – Bydd Llywodraeth Cymru'n arwain dirprwyaethau masnach i ddwy o sioeau masnach mwyaf y byd yr wythnos hon, wrth i Gymru geisio sicrhau bod busnesau mor barod â phosib ar gyfer Brexit.

12 Tachwedd: **Cymru'n sicrhau €100m o arian ymchwil a datblygu o un o gronfeydd cystadleuol yr UE**.

13 Tachwedd: **Hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE): 13 Tachwedd 2018**. Mynychodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drayford AC, y cyfarfod.

13 Tachwedd: Datganiad Ysgrifenedig – **Datganiad ynghylch Rheoliadau Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018**.

13 Tachwedd: Datganiad Ysgrifenedig: **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin**.

13 Tachwedd: **Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

13 Tachwedd: **Rebecca Evans yn cyfarfod grŵp Brexit Senedd Ewrop yn Strasbwrg**.

14 Tachwedd: **Datganiad Ysgrifenedig – Ymweliad â Strasbwrg, 13 Tachwedd 2018**.

15 Tachwedd: Datganiad Ysgrifenedig gan Carwyn Jones – **31ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd ar Ynys Manaw**.

16 Tachwedd: **Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

16 Tachwedd: **Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

19 Tachwedd: **Hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)**.

Mynychodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drayford AC, y cyfarfod.

20 Tachwedd: **Datganiad Llafar: Cytundeb Drafft ar Ymadawiad y DU â'r UE**.

21 Tachwedd: **Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn rhwystredig ac yn poeni am eu dyfodol ar ôl Brexit**.

21 Tachwedd: **Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

21 Tachwedd: **Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

22 Tachwedd: **Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

22 Tachwedd: **£9.4m i helpu pobl sydd â phroblemau iechyd i aros mewn gwaith**.

23 Tachwedd: **Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

23 Tachwedd: **£1m ar gael i helpu busnesau bach a chanolig Cymru i ymdopi â Brexit**.

26 Tachwedd: **Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

27 Tachwedd: **Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

27 Tachwedd: Datganiad ysgrifenedig gan Carwyn Jones: **Asesu'r Cytundeb Ymadael a pherthynas arfaethedig y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol**.

28 Tachwedd: **Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C**.

## Newyddion

5 Tachwedd: **550 o swyddi mewn perygl ymysg ansicrwydd Brexit** (BBC)

14 Tachwedd: **Datganiad FUW mewn ymateb i gefnogaeth y Cabinet i'r cytundeb drafft ar ymadael â'r UE**.

15 Tachwedd: **NFU Cymru'n rhoi croeso pwyllog i'r cytundeb rhwng y DU a'r UE ynghylch Brexit**.





19 Tachwedd: **Crynodeb o ymateb NFU Cymru i ymgynghoriad Brexit a'n Tir** (NFU Cymru)

19 Tachwedd: **NFU Cymru'n ymgysylltu ag Aelodau Seneddol Cymru ynglŷn â bargen Brexit**.

20 Tachwedd: **Cyd-ddatganiad undebau ffermio'r DU ar Brexit** (NFU Cymru)

26 Tachwedd: **NFU Cymru'n rhybuddio am 'hunllef' Brexit dim bargen**.

27 Tachwedd: **Llywydd FUW yn codi pryderon ynglŷn â bargen Brexit â Theresa May**.

27 Tachwedd: **Tîm NFU Cymru'n cyfarfod â'r Prif Weinidog yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru**.

27 Tachwedd: **CLA yn cefnogi argymhellion Pwyllgor EFRA ar y Bil Amaethyddiaeth**.

# Datblygiadau'r UE

## Y Cyngor Ewropeaidd

10 Tachwedd: **Araith gan yr Arlywydd Donald Tusk: "November 11, 2018: Poland and Europe. Two Anniversaries, Two Lessons"**.

14 Tachwedd: **Archwiliadau llongau: paratoi ar gyfer Brexit**.

15 Tachwedd: **Sylwadau gan yr Arlywydd Donald Tusk ar ôl ei gyfarfod â Phrif Drafodwr Brexit yr UE, Michel Barnier**.

19 Tachwedd: **Cyllideb yr UE ar gyfer 2019: Daw'r cymodi i ben heb gytundeb**

20 Tachwedd: **Casgliadau 50fed cyfarfod Cyngor yr AEE**.

22 Tachwedd: **Datganiad Gwleidyddol Drafft yn manylu ar y Fframwaith ar gyfer y Berthynas yn y Dyfodol rhwng yr UE a'r DU**.

22 Tachwedd: **Yr UE yn cynnig y dylid hybu rhyddid i symud nwyddau trwy gydnabyddiaeth estynedig y naill o'r llall**.

23 Tachwedd: **Yr UE yn cynnig y dylid cadw cynhyrchion anniogel oddi ar y farchnad: y Cyngor yn cytuno ar ei safiad ar uwch reolau gorfodi a chydymffurfio**.

24 Tachwedd: **Llythyr gwahoddiad gan yr Arlywydd Donald Tusk i aelodau'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) cyn eu cyfarfod arbennig ar 25 Tachwedd 2018**.

25 Tachwedd: **Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50). Sylwadau gan yr Arlywydd Donald Tusk ar ôl cyfarfod arbennig y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50)**.

## Y Comisiwn Ewropeaidd

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi **Nodiadau parodrwydd ar gyfer Brexit** ynglŷn â goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd – yn amodol ar unrhyw drefniant pontio y gellid ei gynnwys mewn cytundeb ymadael posibl.

7 Tachwedd: **Y Comisiwn yn cynnig cyfleoedd pysgota yn yr Iwerydd a Môr y Gogledd ar gyfer 2019. Sesiwn holi ac ateb**.



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

8 Tachwedd: **Pecyn tor rheolau mis Tachwedd: penderfyniadau allweddol**. Mae'r DU yn crybwyll:

> Free movement of workers: Commission questions different treatment between EU workers as regards access to housing benefits in the United Kingdom
>
> Common market organisation: Commission urges the United Kingdom to establish a functioning management system of producer organisations (fishery and aquaculture)
>
> A letter of formal notice was also sent to the UK concerning the Isle of Man's abusive VAT practices with regard to supplies and leasing of aircraft – **Papurau Paradwys: Y Comisiwn yn mynd ar drywydd consesiynau treth anghyfreithlon i gychod hwylio ac awyrennau**

13 Tachwedd: **Parodrwydd ar gyfer Brexit: y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig teithio di-fisa i'r UE ar gyfer gwladolion y DU os na chytunir ar fargen – os bydd y DU hefyd yn caniatáu teithio di-visa cyfatebol i bob dinesydd yr UE**.

13 Tachwedd: **Parodrwydd ar gyfer Brexit: y Comisiwn Ewropeaidd yn gynnig gwneud diwygiad technegol i ddeddfwriaeth ynni'r UE i gymryd ymadawiad y DU i ystyriaeth**.

13 Tachwedd: **Brexit: y Comisiwn Ewropeaidd yn dwysáu gwaith parodrwydd ac yn amlinellu cynllun gweithredu wrth gefn pe na chytunir ar fargen â'r DU**.

13 Tachwedd: **Hysbysiad ynglŷn â theithio rhwng yr UE a'r Deyrnas Unedig ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE**.

14 Tachwedd: **Datganiad gan Michel Barnier**. **Negodiadau Brexit: Beth yw'r Cytundeb Ymadael?** **Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon**.

14 Tachwedd: **Y Comisiwn Ewropeaidd yn argymell i'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ei fod yn penderfynu bod cynnydd pendant wedi'i wneud yn negodiadau Brexit**.

14 Tachwedd: **Adroddiad ar y cyd oddi wrth drafodwyr yr UE a'r DU ynglŷn â'r sefyllfa sydd ohoni o ran y trafodaethau dan erthygl 50 y Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn ag ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r UE a'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd**.

14 Tachwedd: **Cytundeb Drafft ar ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd a'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd, fel y cytunwyd arno ar lefel trafodwyr ar 14 Tachwedd 2018**.

14 Tachwedd: **Amlinelliad o'r datganiad gwleidyddol yn manylu ar y fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, fel y cytunwyd arno ar lefel trafodwyr ar 14 Tachwedd 2018**.

19 Tachwedd: **Datganiad i'r wasg gan Michel Barnier ar ôl cyfarfod y Cyngor Materion Cyffredinol (Erthygl 50)**.

22 Tachwedd: **Datganiad gwleidyddol yn manylu ar y fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig**.

24 Tachwedd: **Cytundeb drafft ar ymadawiad y DU â'r UE fel y cytunwyd arno ar lefel trafodwyr ar 14 Tachwedd 2018, gan gynnwys testun Erthygl 132**.

26 Tachwedd: **Cwestiynau ac Atebion – hawliau dinasyddion yr UE a'r DU, fel y'u hamlinellwyd yn y Cytundeb Ymadael**.

27 Tachwedd: **Adroddiad newydd yn darparu tystiolaeth bellach o gysylltiad rhwng masnach a swyddi**. Yn 2017, roedd allforion y DU i weddill y byd yn cefnogi 4.2 miliwn o swyddi.

27 Tachwedd: **Parodrwydd ar gyfer Brexit: cytunwyd yn amodol ar ddiwygio rheolau'r UE ym maes cymeradwyo mathau o gerbydau**.

## Senedd Ewrop

6 Tachwedd: Brexit: **Sicrhau pontio llyfn ar gyfer cynhyrchwyr ceir a diogelwch ar y ffyrdd**.

12-15 Tachwedd: **Cyfarfod Llawn yn Strasbwrg**: Adroddiad interim ar Fframwaith Ariannol Aml-flwyddyn 2021-2027 – safiad y Senedd o ran cytundeb; Dadl gyda Changhellor yr Almaen, Angela Merkel, ar Ddyfodol Ewrop; Anerchiad gan Cyril Ramaphosa, Arlywydd Gweriniaeth De Affrica.

13 Tachwedd: **Merkel: Rhaid i genedlaetholdeb ac egoistiaeth fyth â chael cyfle eto yn Ewrop**.

14 Tachwedd: **Guy Verhofstadt: Grŵp llywio Brexit Senedd Ewrop yn croesawu'r cynnydd positif a wnaed yn y negodiadau**.

15 Tachwedd: **Yr Arlywydd Tajani ar gytundeb Brexit**.



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

21 Tachwedd: **Cysylltiadau rhwng yr UE a Japan: ASEau Materion Tramor yn cefnogi Cytundeb Partneriaeth Strategol**.

28-29 Tachwedd: **Sesiwn Cyfarfod Llawn ym Mrwsel**: Dadl â Phrif Weinidog Denmarc, Lars Løkke Rasmussen, ar Ddyfodol Ewrop; Datganiad y Comisiwn – pecyn y Farchnad Sengl.

## Newyddion

26 Tachwedd: **Brexit: mae'r cais am ddirymu'r penderfyniad sy'n awdurdodi agor negodiadau Brexit, a gyflwynwyd gan dri ar ddeg o ddinasyddion Prydain sy'n byw yn Aelod-wladwriaethau'r UE heblaw'r DU, yn annerbyniol**. (Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd)

# Datblygiadau'r DU

## Llywodraeth y DU

5 Tachwedd: **Ailddarlleniad o alwad ffôn y Prif Weinidog â Leo Varadkar**.

5 Tachwedd: **Ailddarlleniad o alwad ffôn y Prif Weinidog â Sebastian Kurz**.

Diweddariad 5 Tachwedd: **Canllawiau ar hawliau rhyddid i symud aelodau teulu uniongyrchol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) ac o blith gwladolion y Swistir**.

5 Tachwedd: **Hawlenni Cludo Nwyddau ar y Ffordd – Canllawiau ar Bennu Dyraniadau Hawlenni**.

6 Tachwedd: **Wightman ac Eraill v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** – Mae a wnelo'r achos â chyfeiriad at Lys Cyfiawnder Ewrop a wnaed gan Dŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban ... yn benodol i nodi a all y Deyrnas Unedig ddirymu ei Hysbysiad i adael yr UE yn unochrog (h.y. heb ganiatâd Aelod-wladwriaethau eraill yr UE).

13 Tachwedd: **Hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE): 13 Tachwedd 2018**. Mynychodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drayford AC, y cyfarfod.

14 Tachwedd: **Esboniwr y Cytundeb Ymadael** a **Nodyn Esboniadol Technegol ar Erthyglau 6-8 ar Brotocol Gogledd Iwerddon**.

14 Tachwedd: Datganiad i'r wasg – **Cynnydd ar ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, a'i pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol**.

15 Tachwedd: Diweddariad: **Pecyn partneriaeth: paratoi ar gyfer newidiadau yn ffin y DU ar ôl ymadael â'r UE heb fargen**.

15 Tachwedd: **Cyfarfu'r Prif Weinidog, Theresa May, â Phrif Weinidog Gibraltar, Fabian Picardo, i drafod Brexit**.

Diweddariad 16 Tachwedd: **Gwladolion y DU yn yr UE: gwybodaeth hanfodol**.

19 Tachwedd: **Hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)**. Mynychodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drayford AC, y cyfarfod.



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

20 Tachwedd: **Cyfarfu'r Prif Weinidog, Theresa May, â Phrif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon**.

21 Tachwedd: **Cyfarfu'r Prif Weinidog, Theresa May, â Phrif Weinidog Cymru, Carwyn Jones**.

21 Tachwedd: **Y Prif Weinidog, Theresa May, yn ffonio Prif Weinidog Sbaen, Pedro Sanchez**.

22 Tachwedd: **Cyfarfu'r Prif Weinidog, Theresa May, â Changhellor Awstria, Sebastian Kurz**.

22 Tachwedd: **Sefydliadau Gogledd Iwerddon yn cyfarfod â'r Prif Weinidog i drafod bargen Brexit**.

22 Tachwedd: **Datganiad Gwleidyddol Drafft yn manylu ar y fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd**.

22 Tachwedd: **Cynnydd ar ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, a'i pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol**.

24 Tachwedd: **Negodiadau ynglŷn â'r berthynas yn y dyfodol: cwmpas tiriogaethol** – **Llythyr oddi wrth Gynrychiolydd Parhaol y DU i'r UE at Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn â chwmpas tiriogaethol cytundebau'r DU â'r UE yn y dyfodol**, a **datganiad gan Lywodraeth Ei Mawrhydi yn Gibraltar**.

25 Tachwedd: **Cytundeb Ymadael** a **Datganiad Gwleidyddol** ar y berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE yn unol â chymeradwyaeth arweinwyr mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Ewropeaidd.

25 Tachwedd: Llythyrau oddi wrth Gynrychiolydd Parhaol y DU i'r UE at **Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor** ac **Ysgrifennydd Cyffredinol y Comisiwn** ar sofraniaeth y DU dros Gibraltar.

25 Tachwedd: **Gwnaeth y Prif Weinidog, Theresa May, ddatganiad yng Nghyngor yr UE**.

26 Tachwedd: **Y DU yn cytuno ar drefniadau tollau newydd â Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron**.

26 Tachwedd: **Cytundeb Ymadael a Datganiad Gwleidyddol a osodwyd gerbron Senedd y DU yn dilyn cytundeb gwleidyddol**.

26 Tachwedd: **Wightman ac Eraill v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** – cais am ganiatâd i apelio i'r Goruchaf Lys. **Cais am ganiatâd i apelio i'r Goruchaf Lys** a chrynodeb o Achos yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. **Sail dros Apelio**.

26 Tachwedd: **Rheoliadau Sefydliadau a Gwarchodaeth Gonsylaidd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**.

26 Tachwedd: **Y Prif Weinidog, Theresa May, yn gwesteio cyfarfod briffio busnes yn Downing Street**.

27 Tachwedd: **Y Prif Weinidog yn addo bargen i gryfhau'r Undeb** – Y Prif Weinidog, Theresa May, yn mynd i Gymru a Gogledd Iwerddon i gyfarfod â chynhyrchwyr, cyflogwyr ac arweinwyr gwleidyddol, ar ôl dod i gytundeb ym Mrwsel.

28 Tachwedd: **Y Prif Weinidog yn addo bargen sy'n gweithio i'r Alban**

28 Tachwedd: **Ymadael â'r UE: Dadansoddiad Economaidd Tymor Hir**

28 Tachwedd: **Ymadael â'r UE: Cymryd rheolaeth yn ôl ar ein ffiniau, ein harian a'n cyfreithiau tra'n bod yn diogelu ein heconomi, ein diogelwch a'n Hundeb**

## Tŷ'r Cyffredin

13 Tachwedd: Cwestiynau cyfiawnder: **Gadael yr UE: Y System Gyfiawnder**.

13 Tachwedd: Dadl ar y **Cytundeb Ymadael â'r UE: Cyngor Cyfreithiol**.

14 Tachwedd: **Cwestiynau'r Prif Weinidog**.

14 Tachwedd: Ail Ddarlleniad o'r **Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)**.

15 Tachwedd: Cwestiynau Masnach Ryngwladol: **Y Diwydiannau Creadigol**; **Bwyd a Safonau Amaethyddol**; **Y Diwydiant Modurol**; **Bwyd a Safonau Amaethyddol**.

15 Tachwedd: Datganiad y Prif Weinidog, a dadl ar **Negodiadau Ymadael â'r UE**.

19 Tachwedd: Dadl Neuadd San Steffan ynglŷn â **Gadael yr Undeb Ewropeaidd**.





20 Tachwedd: Cwestiynau Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol: **Gadael yr UE: Swyddi Gweithgynhyrchu**.

21 Tachwedd: **Cwestiynau'r Prif Weinidog**.

21 Tachwedd: Ail Ddarlleniad o'r **Bil Pysgodfeydd**.

21 Tachwedd: Dadl Neuadd San Steffan: **Gadael yr UE: Gwasanaethau Cyfreithiol**.

22 Tachwedd: Cwestiwn Trafnidiaeth ar **Adael yr UE: Y Sector Hedfanaeth**.

22 Tachwedd: Datganiad y Prif Weinidog, a dadl ar **Gynnydd â Negodiadau'r UE**.

26 Tachwedd: Cwestiwn amddiffyn ynglŷn â'r **Berthynas Amddiffyn rhwng y DU a'r UE**.

26 Tachwedd: Datganiad y Prif Weinidog, a dadl ar **Adael yr UE**.

27 Tachwedd: Dadl Neuadd San Steffan: **Cynllun Statws Preswylydd Sefydlog yr UE**

28 Tachwedd: **Cwestiynau'r Prif Weinidog**.

28 Tachwedd: Cwestiwn Brys: **Gadael yr UE: Dadansoddiad Economaidd**.

## Pwyllgorau

### Y Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol:

26 Tachwedd: Brexit: **Y Pwyllgor yn cynnal gwrandawiadau tystiolaeth ynglŷn â'r sector bwyd a diod, y sector awyrofod a'r sector fferyllol**.

27 Tachwedd: **Ymateb busnes i'r cytundeb ymadael â'r UE: bwyd a diod**.

28 Tachwedd: Dwy Sesiwn Dystiolaeth ynglŷn â Gadael yr UE: goblygiadau i fusnesau'r DU - **Awyrofod** a **Fferyllol**.

4 Rhagfyr: Sesiynau Tystiolaeth ynglŷn â Gadael yr UE: goblygiadau i fusnesau'r DU - Modurol.

## Amddiffyn:

21 Tachwedd: Sesiwn Dystiolaeth ynglŷn â'r Rhaglen Datblygu Diwydiannol Amddiffyn Ewropeaidd (EDIDP). **Trawsgrifiad**.

## Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:

31 Hydref: **Gohebiaeth oddi wrth George Eustice ynglŷn â chyflwyno'r Bil Pysgodfeydd**.

7 Tachwedd: **Gohebiaeth oddi wrth Michael Gove ynglŷn â rhaglen is-ddeddfwriaeth Defra**.

14 Tachwedd: Brand Prydain: Ymchwiliad Hybu a Marchnata bwyd a diod Prydain: **Tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Lywodraeth Cymru**.

14-21 Tachwedd: Ymchwiliad y Bil Amaethyddiaeth: Tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth **Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig**; **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant**; **Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd**; **Llywodraeth yr Alban**.

